OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 1884 (Cy. 188)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8 (Ael-y-Bowl), Ynys Môn i Gyffordd 9 (Treborth), Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Gorffennaf 2013* |
| *Yn dod i rym* | *4 Awst 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Awst 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 8 (Ael-y-Bowl), Ynys Môn i Gyffordd 9 (Treborth), Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 4 Awst 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 8 (Ael-y-Bowl) ar Ynys Môn a Chyffordd 9 (Treborth) yn Sir Gwynedd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwahardd**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Gorffennaf 2013

***R Morgan***
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8 (Ael-y-Bowl) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 9 (Treborth).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9 (Treborth) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8 (Ael-y-Bowl).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8 (Ael-y-Bowl).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8A (Carreg Brân).

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 9 (Treborth).